

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y Deyrnas Unedig ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2010 i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Cefndir

1. Cyflwynwyd y Gorchymyn uchod gan Jane Hutt, Gweinidog Cyllid Cymru ac Arweinydd y Tŷ o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gosodir y memorandwm hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu os yw'n dwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) ("y Bil") ar 30 Mehefin 2010 a gellir ei weld yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2010-11/publicservicesocialenterpriseandsocialvalue.html>

3. Bil Aelod Preifat yw hwn ac fe basiodd gam y Pwyllgor yn y Tŷ lle y'i cyflwynwyd ar 19 Hydref 2011.

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Prif amcan y Bil (fel y'i diwygiwyd) yw creu darpariaeth benodol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio (hy y rheini sy'n destun trefn gaffael yr UE yn rhinwedd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006), wrth osod contractau, ystyried (a) sut y gallai'r hyn y bwriedir ei gaffael wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal a (b) sut, wrth gynnal y broses gaffael, y gallent weithredu gyda'r nod o sicrhau'r gwelliant hwnnw.

Ni fydd y ddarpariaeth hon yn berthnasol i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

neu "a relevant authority whose functions are wholly or mainly Welsh devolved functions".

Mae'r term "a relevant authority whose functions are wholly or mainly Welsh devolved functions" yn cynnwys y sefydliadau canlynol yng Nghymru, y byddant felly wedi'u heithrio rhag gofynion contractio'r Bil -

- awdurdodau lleol;
- awdurdodau tân ac achub;
- awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol;
- ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol; cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sectorau addysg bellach ac uwch;
- cyrff yng Nghymru megis Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y gwahanol Gomisiynwyr.

Bydd y darpariaethau a bennir yn y Bil, fodd bynnag, yn parhau i fod yn berthnasol i awdurdodau'r heddlu a sefydliadau nad ydynt yn gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.

Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

4. Mae'r Bil felly yn gwneud darpariaeth sy'n berthnasol i gyrff y mae eu swyddogaethau wedi'u datganoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, ac sydd felly o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond sy'n gweithredu'n llawer ehangach nag yng Nghymru yn unig. Maent yn cynnwys: Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, Comisiwn Addysg a Sgiliau y DU a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

5. Mae swyddogaethau'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y penawdau canlynol:

Para 1 - Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Coedwigaeth;

Para 5 - Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Addysg;

Para 6 - Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Diogelu'r Amgylchedd;

Para 8 - Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Bwyd a chynhyrchion bwyd.

Manteision defnyddio'r Bil hwn

6. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r Bil (fel y'i diwygiwyd) yn defnyddio'r dull drafftio mwyaf priodol wrth bennu pa gyrff sydd wedi'u heithrio rhag y darpariaethau perthnasol er bod hynny'n golygu bod y Bil, i raddau cyfyngedig, yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Y dewis arall fyddai gweithredu ar sail "swyddogaethau", a fyddai'n golygu y byddai gofyn i'r awdurdodau contractio sy'n gweithredu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ystyried a yw pob un o'u swyddogaethau o fewn neu oddi

allan i gwmpas y ddyletswydd. Ni fydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith sylweddol o ran polisi ar y swyddogaethau datganoledig.

Goblygiadau Ariannol

7. Nid oes goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r Bil hwn.

Jane Hutt AC.
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ